

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**6 Mawrth 2023**

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio rheoliad 9 (dosbarth 6) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015, er mwyn i eiddo sy'n ddarostyngedig i amod cynllunio, sy'n pennu mai dim ond fel llety gwyliau neu fel unig neu brif breswylfa person y gellir ei ddefnyddio, gael ei ychwanegu fel dosbarth ar annedd na chaiff awdurdod bilio wneud penderfyniad i gymhwyso swm uwch o dreth gyngor iddo. Mae dosbarth 6 yn gymwys i eiddo a feddiannir yn gyfnodol (y cyfeirir ato fel ail gartref).

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") (a fewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) yn galluogi awdurdodau lleol i ddatgymhwyso unrhyw ostyngiad a roddir i anheddau gwag hirdymor (adran 12A) ac anheddau a feddiannir yn gyfnodol (adran 12B) ac i gymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm). Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i bennu swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% (300% o 1 Ebrill 2023) o gyfradd safonol y dreth gyngor sy'n gymwys i'r annedd.

3.2 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 12A(4) a 12A(5) a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi anheddau a fydd yn esempt rhag premiwm treth gyngor drwy gyfeirio at ffactorau fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda, a gellir, ymysg ffactorau eraill, eu rhagnodi drwy gyfeirio at:

- (a) nodweddion ffisegol anheddau, neu faterion eraill sy'n ymwneud â hwy;
- (b) amgylchiadau unrhyw berson sy'n atebol am swm y dreth gyngor dan sylw, neu faterion eraill sy'n ymwneud â'r person.

3.3 Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu nad yw'r premiwm yn gymwys o dan amgylchiadau lle y byddai'n afresymol neu'n anghydnaws â'r nodau polisi. Rhagnodir yr amgylchiadau hyn yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") ac maent yn darparu dosbarthiadau ar annedd na chaiff awdurdod bilio gymhwyso premiwm iddynt ar ben y gyfradd dreth gyngor safonol.

3.4 Gwnaed Rheoliadau 2023 gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 12B(5) a (6) ac maent yn ymwneud ag eiddo a feddiannir yn gyfnodol. Maent yn ddarostyngedig i'r drefn negyddol.

#### 4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Mae dosbarth 6, a nodir yn Rheoliadau 2015, yn rhagnodi eithriad ar gyfer eiddo y mae ei feddiannaeth wedi'i chyfyngu gan amod cynllunio (yr amod meddiannaeth dymhorol) sy'n atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn fel arfer yn ymwneud ag eiddo y mae natur ei adeiladwaith neu ei ddyluniad yn golygu nad yw'n addas i'w feddiannu'n barhaus, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Yn ogystal, caniateir defnyddio amodau tymhorol i ddiogelu nodweddion lleol, er enghraifft os yw'r safle'n agos at gynefin naturiol bregus y mae gofyn ei amddiffyn ar adegau penodol o'r flwyddyn.
- 4.2 Mae llety hunanddarpar modern yn llawer mwy addas i gael ei feddiannu drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, os yw llety o'r fath wedi'i leoli mewn ardaloedd lle byddai darparu tai parhaol yn groes i bolisiâu cenedlaethol a/neu leol, gall awdurdod cynllunio lleol osod amod sy'n nodi mai dim ond fel llety gwyliau y gellir ei ddefnyddio, neu sy'n cyfyngu ar ddefnyddio'r eiddo hwnnw fel unig neu brif breswylfa person. Enghreifftiau o hyn fyddai troi adeiladau segur yn llety gwyliau pan na fyddai modd caniatáu eu troi'n anheddau preswyl, er enghraifft er mwyn lleihau'r pwysau ar y cyflenwad tai mewn ardaloedd gwledig neu leihau'r pwysau ar wasanaethau lleol.
- 4.3 Ar hyn o bryd nid oes eithriad rhag premiwm y dreth gyngor ar gyfer eiddo ag amod cynllunio sy'n pennu mai dim ond fel llety gwyliau y gellir ei ddefnyddio neu sy'n cyfyngu ar ddefnyddio'r eiddo hwnnw fel unig neu brif breswylfa person.
- 4.4 Fe wnaeth Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (Gorchymyn 2022) gynyddu'r trothwyon argaeledd a gosod y mae'n rhaid i eiddo hunanddarpar eu bodloni i gael ei ddosbarthu fel eiddo annomestig sy'n golygu ei fod yn atebol am ardrethi annomestig.
- 4.5 Mae Gorchymyn 2022 yn diwygio'r nifer lleiaf o ddyddiau y mae'n ofynnol i eiddo hunanddarpar fod ar gael i'w osod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, o 140 i 252, a'r dyddiau y mae'n rhaid iddo gael ei osod mewn gwirionedd, o 70 i 182, er mwyn i'r eiddo gael ei ddosbarthu'n eiddo annomestig o 1 Ebrill 2023.
- 4.6 Bydd eiddo hunanddarpar nad yw'n bodloni'r meini prawf newydd yn cael eu dosbarthu'n eiddo domestig a bydd yn atebol am y dreth gyngor. Bydd hyn yn cynnwys premiwm os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymhwysu swm o'r fath.
- 4.7 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod rhai eiddo hunanddarpar ac eiddo a feddiannir yn gyfnodol yn destun cyfyngiadau cynllunio sy'n atal eu defnyddio fel unig neu brif breswylfa neu sy'n pennu mai fel llety gwyliau yn unig y gellir eu defnyddio. Ni ellir gwerthu eiddo o'r fath na'u gosod am

gyfnod hir fel cartref i aelod o'r gymuned leol – heb newid amodau cynllunio –a gellid dadlau nad ydynt yn cyfyngu ar y stoc tai lleol drwy gael eu gosod i bobl sy'n dod ar eu gwyliau. Mae'n bosibl fod gan berchnogion eiddo o'r fath lai o opsiynau i ymateb i'r meini prawf gosod newydd.

- 4.8 Mae Rheoliadau 2023 yn ychwanegu eiddo, sy'n ddarostyngedig i amod cynllunio sy'n pennu mai dim ond fel llety gwyliau y gellir defnyddio annedd neu sy'n atal meddiannaeth o'r eiddo fel unig neu brif breswylfa person, i ddsbarth 6 a nodir yn rheoliad 9 o Reoliadau 2015. Daw eiddo o'r fath yn ddsbarth ar annedd na chaniateir i awdurdod bilio wneud penderfyniad i gymhwyso swm uwch o dreth gyngor mewn perthynas ag ef. Mae'r ddsbarth hwn yn ymwneud ag eiddo a feddiannir yn gyfnodol. Byddai eiddo o'r fath yn dod yn atebol am y dreth gyngor ar y gyfradd safonol os na fyddai'n bodloni'r meini prawf gosod ar gyfer eiddo annomestig, ond ni fyddai modd codi premiwm treth gyngor arno.
- 4.9 Bydd yr eithriadau hyn yn berthnasol o 1 Ebrill 2023, ar y cyd â'r trothwyon uwch ar gyfer ddsbarthu eiddo sy'n darparu llety hunddarpar yn eiddo annomestig.

## 5. Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad technegol o 11 Tachwedd i 22 Rhagfyr 2022, gan ofyn am farn unigolion a sefydliadau am eglurder y Rheoliadau. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd am dystiolaeth i nodi canlyniadau anfwriadol i weithredwyr hunanddarpar neu berchnogion ail gartrefi.
- 5.2 Cafwyd 143 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn adlewyrchu sbectwm eang o fuddiannau a safbwyntiau. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr hunanddarpar, perchnogion ail gartrefi, busnesau lleol, cynghorau tref a chymuned, cyrff cynrychioliadol, cyrff/cymdeithasau proffesiynol, ac unigolion preifat.
- 5.3 O ganlyniad i'r ymgynghoriad, gwnaed mân newidiadau i'r Rheoliadau drafft i ddileu'r cyfeiriadau at yr angen i lety gwyliau fod yn un 'byrdymor' er mwyn i'r eithriad cynllunio fod yn gymwys. Mae hyn oherwydd bod rhai ymatebwyr wedi nodi bod rhai amodau cynllunio yn cyfyngu ar ddefnyddio eiddo fel llety gwyliau heb bennu unrhyw hyd i'r cyfnod gosod. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:  
<https://www.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-y-dreth-gyngor-eithriadau-rhag-symiau-uwch-cymru-diwygio-2023-html>

## RHAN 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau, costau a manteision

- 6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â chyflwyno ddsbarth ychwanegol o eithriad, i'w gymhwyso i eiddo hunanddarpar ag amod cynllunio sy'n ei gyfyngu i'w ddefnyddio fel

llety gwyliau yn unig neu sy'n ei atal rhag cael eu defnyddio'n barhaol fel prif breswylfa person. Byddai eiddo o'r fath yn dod yn atebol am y dreth gyngor ar y gyfradd safonol os na fyddai'n bodloni'r meini prawf gosod ar gyfer cael ei ddiffinio fel eiddo annomestig, ond ni fyddai modd codi premiwm arno.

6.2 Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar wybodaeth a data a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru hyd at y dyddiad cyhoeddi.

6.3 Mae'r ddau opsiwn canlynol wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r diwygiad i'r rheoliadau.

Opsiwn 1: Peidio ag estyn yr eithriad i'r premiymau treth gyngor, cynnal y status quo a pharhau â'r trefniadau presennol.

Opsiwn 2: Gwneud rheoliadau sy'n estyn yr Eithriad Dosbarth 6 i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023.

### **Opsiwn 1: Cynnal y status quo**

6.4 Cafodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 eu gwneud i gyd-fynd â chyflwyno'r pwerau disgrisiwn i awdurdodau lleol gymhwyso premiymau treth gyngor ac atal codi premiwm ar rai mathau penodedig o ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor. Mae'r rheoliadau hyn eisoes yn darparu ar gyfer eithriad rhag premiwm treth gyngor ar gyfer eiddo a gyfyngir gan amod cynllunio sy'n atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o o leiaf 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn.

### **Costau**

6.5 Byddai Opsiwn 1 yn golygu parhau â'r arfer presennol ac ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol.

### **Manteision**

6.6 Ni fyddai angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Ni fyddai estyn yr eithriad Dosbarth 6 yn creu cymhlethdod gweinyddu pellach i awdurdodau lleol.

6.7 Mae'n bosibl y byddai awdurdodau lleol yn gallu casglu mwy mewn treth gyngor os bydd eiddo hunanddarpar nad yw'n bodloni'r meini prawf gosod newydd o 1 Ebrill 2023 yn cael ei ddsbarthu fel eiddo domestig ac yn dod yn atebol am y dreth gyngor a'r premiwm.

### **Anfanteision**

6.8 Nid oes modd i lety hunanddarpar sy'n destun cyfyngiadau cynllunio sy'n atal meddiannaeth barhaol neu sy'n pennu mai dim ond fel llety gwyliau y

gellir ei ddefnyddio, gael ei werthu na'i osod am gyfnod hir fel cartref i aelod o'r gymuned leol, heb newid amodau cynllunio. Felly, mae'n bosibl y bydd gan berchnogion eiddo o'r fath lai o opsiynau ar gyfer ymateb i'r meini prawf newydd.

- 6.9 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26 wedi'i diweddarau a'r Cytundeb Cydweithio yn ymrwymo i geisio adolygu'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy blaengar. Ni fyddai parhau â'r trefniadau presennol, Opsiwn 1, yn cyfrannu'n weithredol tuag at yr amcan polisi hwn.

### **Opsiwn 1 – Crynodeb**

- 6.10 Byddai gwneud dim yn cadw'r eithriadau presennol ac ni fyddai'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'r opsiwn yn hyrwyddo'r ymrwymiad i ddiwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy blaengar. Felly, nid hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

### **Opsiwn 2: Gwneud rheoliadau sy'n estyn yr Eithriad Dosbarth 6 i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023**

- 6.11 Byddai opsiwn 2 yn golygu cyflwyno Rheoliadau i ddarparu y byddai'r eithriadau Dosbarth 6 i breimymau treth gyngor, o 1 Ebrill 2023, yn cynnwys eiddo sy'n destun amod cynllunio sy'n pennu mai dim ond ar gyfer llety gwyliau y gellir ei ddefnyddio neu sy'n atal ei ddefnyddio fel unig neu brif breswylfa person.
- 6.12 Byddai eiddo o'r fath yn atebol am y dreth gyngor ar y gyfradd safonol os na fyddai'n bodloni'r meini prawf gosod ar gyfer cael ei ddsbarthu fel eiddo annomestig, ond ni fyddai modd codi premiwm arno, er gwaethaf y pwerau dewisol eang sydd gan awdurdodau lleol yn gyffredinol ar filiau treth cyngor.

### **Costau**

- 6.13 Bydd goblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol hynny sy'n cymhwyso premiymau treth gyngor gan y bydd y ddeddfwriaeth yn estyn dosbarth o eiddo na allant gymhwyso premiwm iddo. Bydd yr effaith hon yn cael ei gwrthbwyso gan y ffaith y bydd awdurdodau, o 1 Ebrill 2023, yn gallu gosod uchafswm premiwm uwch a gallai'r meini prawf gosod uwch arwain at ddsbarthu mwy o anheddau fel ail gartrefi yn hytrach nag fel llety gwyliau hunanddarpar. Mater i awdurdodau unigol yw asesu unrhyw oblygiadau ariannol ac effeithiau eraill fel rhan o'r broses o benderfynu a ddylid cymhwyso neu gynyddu premiwm a bydd y goblygiadau ariannol gwirioneddol yn dibynnu ar eu penderfyniadau. Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i rag-weld canlyniad penderfyniadau o'r fath.

Tabl 1: Awdurdodau lleol sy'n codi premiwm

<b>2022-23</b>	<b>Premiwm Ail Gartref (canran)</b>
Ynys Môn	50
Gwynedd	100
Conwy	25
Sir Ddinbych	50
Sir y Fflint	50
Powys	50
Ceredigion	25
Sir Benfro	100
Abertawe	100

6.14 Mae'n annhebygol y byddai unrhyw gostau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn codi o'r opsiwn hwn.

### **Manteision**

6.15 Mae estyn yr eithriad Dosbarth 6 i'r premiwm yn golygu na fydd treth gyngor ychwanegol yn cael ei chodi o dan amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn na ddylid ei chodi, a bydd hyn o fudd i drethdalwyr a allai fel arall ddod yn atebol am bremiwm treth gyngor. Ar gyfer 2023-24, amcangyfrifir y bydd tua 11,000 eiddo yn cael eu dosbarthu fel eiddo hunanddarpar yng Nghymru at ddibenion trethiant lleol. Fodd bynnag, ni wyddys faint o'r eiddo hyn a allai fod yn destun amod cynllunio a allai eu gwneud yn gymwys ar gyfer yr Eithriad Dosbarth 6 estynedig.

6.16 Bydd estyn yr eithriad Dosbarth 6 i'r premiwm yn sicrhau bod cysondeb wrth gymhwyso'r polisi ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd hynny'n helpu i sicrhau bod trethdalwyr cynghorau mewn amgylchiadau tebyg yn cael eu trin yn gyfartal.

6.17 Byddai estyn eithriad Dosbarth 6 hefyd yn lliniaru'r risg o nifer uwch o apeliadau. Mae'n debygol o hyd y bydd apeliadau yn erbyn atebolrwydd am bremiwm, yn ogystal â chymhwystra am eithriad, a fydd yn arwain at waith ychwanegol i awdurdod lleol a Thribiwnlys Prisiau Cymru, ond bydd hyn yn is na phe na bai'r eithriad hwn yn cael ei ragnodi.

6.18 Byddai Opsiwn 2, yn cyfrannu tuag at yr ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26 wedi'i diweddarau ac yn y Cytundeb Cydweithio i geisio adolygu'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy blaengar.

## **Anfanteision**

6.19 Os nad yw eithriad Dosbarth 6 yn cael ei ymestyn, gallai cwynion am annhegwch gynyddu gan y gallai rhai perchnogion fod â llai o opsiynau nag eraill i werthu neu adael i'w cartref fel prif breswylfa, mae hefyd yn debygol y byddai nifer yr apeliadau yn cynyddu. Byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith weinyddol ar awdurdodau lleol.

## **Opsiwn 2 – Crynodeb**

6.20 Mae opsiwn 2 yn gofyn am newid deddfwriaethol a byddai'n estyn yr eithriad Dosbarth 6 gan ei gwneud yn fwy ymarferol i drethdalwyr cyngorau nodi a gwneud cais am yr eithriad hwn. Byddai hefyd yn sicrhau bod trethdalwyr cyngorau mewn amgylchiadau tebyg yn cael eu trin yn gyfartal. Efallai y bydd rhai costau gweinyddol ychwanegol i awdurdodau lleol.

6.21 Mae'r opsiwn hwn yn cyfrannu at yr ymrwymiad perthnasol yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26 wedi'i diweddarau ac yn y Cytundeb Cydweithio.

6.22 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## **7. Dyletswyddau**

### **7.1 Y Rhaglen Lywodraethu**

Mae'r polisi yn rhan o gyfres ehangach o fesurau i geisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gyfran uchel o ail gartrefi a llety gwyliau mewn cymunedau penodol. Mae hyn yn cynnwys 'cyfraniad tecach - defnyddio systemau treth lleol a chenedlaethol i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad teg ac effeithiol i'r cymunedau lle maen nhw'n prynu', sy'n rhan o ddull gweithredu tair elfen Llywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn gweithio tuag at y nodau llesiant, sef sicrhau Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

### **7.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Bwriad cyflwyno'r premiymau treth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi oedd helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy a hybu cynaliadwyedd gwasanaethau a chymunedau lleol. Bydd y polisi'n cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol: Cymru ffyniannus, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus.

### **7.3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Er y bydd y premiymau treth gyngor ac unrhyw eithriadau yn gymwys i rieni plant a phobl ifanc, nid oes effaith andwyol ar hawliau plant gan mai un o amcanion y premiymau yw cynyddu'r cyflenwad o dai, a fyddai'n diogelu safon byw teuluoedd ag incwm isel.



#### 7.4 Y Gymraeg

Gall defnyddio premiymau gynorthwyo awdurdodau lleol i helpu cymunedau penodol i fod yn gynaliadwy. Gallai estyn yr eithriad gael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, neu mae trin yr iaith yn gyfartal wedi cael ei nodi mewn cysylltiad â'r diwygiad gan y byddai'n galluogi rhai busnesau gwledig i fod yn hyfyw.

#### 7.5 Cydraddoldebau

Nid oes unrhyw effaith negyddol ar grwpiau sydd â nodwedd warchoddedig wedi'i nodi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn.

### 8. **Asesiad Cystadleuaeth**

8.1 Mae'n bosibl y bydd gwneud y Rheoliadau yn cael effaith ymylol ar gystadleurwydd busnesau, elusennau neu'r sector gwirfoddol.

### 9. **Adolygu ar ôl Gweithredu**

9.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd ar weithredu'r premiymau treth gyngor yn flynyddol.

9.2 Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro effaith ymestyn yr eithriad Dosbarth 6 i'r premiwm treth gyngor drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

9.3 Bydd y pecyn gwaith i geisio adolygu'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a fwy blaengar yn cynnwys adolygiad o ostyngiadau treth gyngor, diystyriadau, eithriadau a phremiymau, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi.

### 10. **Crynodeb**

10.1 Bydd gwneud y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn fwy ymarferol i drethdalwyr cyngorau nodi a gwneud cais am yr eithriad hwn. Bydd hefyd yn sicrhau bod trethdalwyr cyngorau mewn amgylchiadau tebyg yn cael eu trin yn gyfartal.